# CANLLAW CMC I UNIGOLION SY'N GADAEL

**Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru (CMC) yn ymwneud â myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn prifysgolion neu golegau yn y DU**

cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru (CMC) yn ymwneud â myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn prifysgolion neu golegau yn y Deyrnas Unedig

Os nad ydych wedi bod o dan ofal cyfreithiol eich rhieni ar unrhyw adeg o 14 ac 16 oed hyd at flwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs; ac, am dri mis neu fwy byddwch yn cael eich ystyried yn fyfyriwr annibynnol at ddibenion cyllid myfyrwyr os ydych wedi bod:

- yng ngofal cyfreithiol awdurdod lleol
- yng nghystodaeth awdurdod lleol
- wedi cael llety gan awdurdod lleol
- wedi bod dan ofal rhieni maeth trwy awdurdod lleol

Os ydych wedi dychwelyd i fyw gyda'ch rhieni ond yn dal i fod dan ofal yr awdurdod lleol gallwch gael eich ystyried yn fyfyriwr annibynnol o hyd.

Os rhoddir statws myfyriwr annibynnol i chi, ni fyddwn yn gofyn i chi ddarparu incwm eich noddwr i weithio allan eich hawl i grantiau a benthyciadau cynhaliaeth.

## Sut ydw i'n gwybod os ydw i'n gymwys ar gyfer statws Unigolion sy'n Gadael Gofal?

Os gwnaethoch ddechrau eich cwrs ar neu ar ôl 1 Awst 2018, gallwch wneud cais am gyllid i fyfyrwyr fel rhywun sy'n gadael gofal:

- Os nad ydych wedi bod o dan ofal cyfreithiol eich rhieni ar unrhyw adeg o 14 oed hyd at ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs ac am 13 wythnos, rydych wedi bod yng nghystodaeth, dan ofal cyfreithiol neu wedi cael llety gan awdurdod lleol.
- Os ar unrhyw adeg rhwng 14 ac 16 oed (cyn dechrau eich cwrs) rydych wedi bod yn ôl yng ngofal cyfreithiol eich rhieni; byddwch yn dal i gael eich ystyried fel rhywun sy'n gadael gofal.

Os ydych wedi cael eich mabwysiadu'n swyddogol, byddwn yn defnyddio manylion incwm cartref eich rhiant(rhieni) mabwysiadol i gyfrifo faint y gallwch ei gael.

## Sut ydw i'n gwneud cais fel myfyriwr sy'n Gadael Gofal?

Dylech gyflwyno llythyr wedi'i lofnodi a'i ddyddio gan yr awdurdod lleol, neu eich gweithiwr achos/gweithiwr cymdeithasol ar bapur pennawd, yn cadarnhau:

- y buoch o dan ofal awdurdod lleol (mae hyn yn cynnwys cael eich rhoi mewn gofal maeth gan eich awdurdod lleol
- eich bod yn gadael gofal o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- y dyddiadau yr oeddech mewn gofal
- o 16 oed nad ydych wedi dychwelyd i ofal eich rhiant(rhieni) cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs

Ni all CMC dderbyn gorchmynion preswylio gan nad ydynt yn cadarnhau'r wybodaeth berthnasol.

## Beth arall sydd angen i mi ei wybod?

Gall prifysgolion a cholegau hefyd ddarparu cymorth i fyfyrwyr sy'n gadael gofal. Gallwch siarad â chynghorwyr sydd i'w cael fel arfer yn y Timau Gwasanaethau Myfyrwyr, Lles Myfyrwyr neu Undeb y Myfyrwyr yn eich prifysgol neu goleg. Mae cymorth annibynnol hefyd ar gael gan Class Cymru.

## Dolenni pwysig

CLASS Cymru: www.classcymru.co.uk
UCAS: www.ucas.com/applying/applying-university/individual-needs/care-experienced-students
EaCES: www.childrenscommissioner.gov.uk/imo/your-stories/estranged-and-care-experienced-students